OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

***Datganiadau achos a darpariaeth atodol***

**Datganiad achos a thystiolaeth yr apelydd neu'r hawlydd**

**20.**—(1) Rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, cyn diwedd y cyfnod datganiad achos—

(a) datganiad achos; a

(b) pob tystiolaeth arall y bwriedir dibynnu arni ac nas cyflwynwyd eisoes.

(2) Rhaid i'r datganiad achos gynnwys—

(a) os rhiant y plentyn yw'r apelydd neu'r hawlydd—

(i) safbwyntiau'r plentyn ynglŷn â'r materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad; neu

(ii) esboniad pam nad yw'r apelydd neu'r hawlydd wedi canfod safbwyntiau'r plentyn;

(b) os y plentyn yw'r apelydd neu'r hawlydd—

(i) safbwyntiau rhiant y plentyn ynglŷn â'r materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad; neu

(ii) esboniad pam nad yw'r apelydd neu'r hawlydd wedi canfod safbwyntiau'r rhiant.

(3) Os rhoddir caniatâd gan y Llywydd, caiff yr apelydd neu'r hawlydd—

(a) diwygio'r cais apêl neu'r cais hawlio;

(b) cyflwyno datganiad atodol o resymau sy'n cefnogi'r cais apêl neu'r cais hawlio;

(c) diwygio datganiad atodol o resymau sy'n cefnogi'r cais apêl neu'r cais hawlio;

(ch) cyflwyno datganiad achos atodol;

(d) diwygio datganiad achos atodol.

(4) Rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd gyflwyno copi i Ysgrifennydd y Tribiwnlys o bob diwygiad a datganiad atodol y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer o dan baragraff (3), o fewn y cyfnod o amser a ganiateir.

(5) Os diwygir cais apêl yn unol â pharagraff (3) fel bod yr apelydd yn gofyn am orchymyn bod ysgol a gynhelir i'w henwi yn natganiad y plentyn, ac eithrio'r un a enwir eisoes yn y datganiad hwnnw, neu, os nad oes un a enwir eisoes, bod ysgol a gynhelir i gael ei henwi, rhaid i'r apelydd

hysbysu pennaeth yr ysgol a gynhelir a enwir yn y cais apêl diwygiedig, gan ddatgan enw a dyddiad geni'r plentyn.

(6) Os na chynhelir yr ysgol y cyfeirir ati ym mharagraff (5) gan yr awdurdod lleol, rhaid i'r apelydd hysbysu'r awdurdod sy'n cynnal yr ysgol.

(7) Pan roddir caniatâd o dan baragraff (3), caiff y Llywydd, os bydd angen, estyn y cyfnod datganiad achos, o dan reoliad 69 neu, os daeth i ben, ganiatáu pa bynnag cyfnod pellach a ystyrir yn briodol gan y Llywydd.

(8) Os yw'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, ar yr adeg y rhoddir caniatâd o dan baragraff (3), wedi colli ei hawlogaeth i fod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad yn unol â rheoliadau 25 neu 36, bydd rhoi'r caniatâd yn adfer y cyfryw hawlogaeth ac, os bydd angen, caniateir gohirio'r gwrandawiad neu ohirio gweddill y gwrandawiad, fel y bo'n briodol, er mwyn i'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol gael ei gynrychioli.